Canolfan Mercator
Campws Llanbadarn
Aberystwyth SY23 3AS

yByd.
PAPUR DYDDIOL CENEDLAETHOL

Ffôn: 01970 621998
neges@ybyd.com
www.ybyd.com

7 Mawrth 2008

Annwyl Geraint,

Diolch am eich ymateb i'm llythyr.

Rydych i raddau yn camddeall natur ein cwyn; ac ar yr un pryd yn dadlau'n achos drosom ni.

Nid cwyn am anghydbwysedd y rhaglen gyfan oedd gennym dan sylw, nac am y farn a fynegwyd gan Aled Eirug na Marc Jones, nac am ddidwylledd eu barn nac unrhyw beth yn ymwneud â'u profiad proffesiynol blaenorol, ond am y ffordd y cyflwynwyd yr unigolion hyn nad oedd yn galluogi'r gwyliwr i gloriannu cefndir y sylwebyddion hyn yn deg o fewn cyd-destun y rhaglen.

Fel y gwyddoch, cyd-destun y rhaglen oedd datganiad y Gweinidog Treftadaeth Rhodri Glyn Thomas am ariannu'r wasg Gymraeg ar union ddiwrnod eich rhaglen. Mae ef yn un o Weinidogion Plaid Cymru yn y Cabinet ac fe welwyd ei ddatganiad gan lawer fel mynd yn ôl ar addewid gan y Llywodraeth oedd hefyd yn addewid ym maniffesto Plaid Cymru. Yr oedd amheuon yr unigolion hyn am gynlluniau *Y Byd* yn ymddangos i fod yn cadarnhau safbwynt y Gweinidog a'r Llywodraeth. Nid oes rhaid amau didwylledd yr unigolion wrth ragdybio eu bod efallai yn rhannu safbwyntiau eu cyflogwyr.

Diolch am dynnu'n sylw at y cyfweliadau a wnaethoch ag Aled Price a minnau. Yn achos y cyfweliadau hyn, byddai yr un gwyliwr yn amau mai siarad dros *Y Byd* yr oeddem yn ogystal â thros ein hunain - finnau yn Gadeirydd ar y cwmni ac Aled yn cael ei gyflogi fel golygydd. Yr un peth yn achos Dylan Iorwerth. Roedd pawb yn gweld ei gysylltiad presennol â chylchgrawn sydd o bosibl yn gystadleuydd am arian Llywodraeth y Cynulliad, ac yn medru barnu ei sylwadau yn gryno yn y cyd-destun llawn.

Gwahanol iawn oedd achos Aled Eirug a Marc Jones. Roedd eu hagosrwydd at y Llywodraeth yn eu gwaith presennol llawn mor berthnasol i'r pwnc â'u gwaith blaenorol ac ni ddatgelwyd hynny. Dyna'n cwyn, ac ni chredaf ein bod wedi derbyn ateb boddhaol.

Yn gywir,

Ned Thomas
Cadeirydd Dyddiol Cyf